

# Menter Bro Dinefwr

## HYSBYSEB SWYDD

### SWYDDOG DATBLYGU

(diweddarwyd ar 21 Chwefror 2019)

£20,000 - £25,000

### CYFLWYNIAD

Sefydlwyd Menter Bro Dinefwr yn 1999 gyda'r nod o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar lefel gymunedol, yn ogystal â gweithio i gefnogi datblygiad cymunedol ac economaidd yr ardal. Mae gan y Fenter ddwy swyddfa, yn Llandeilo a Rhydaman, ac mae'n gweithredu dros ystod o feysydd amrywiol a thros ardal ddaearyddol eang sy'n cynnwys trefi Rhydaman, Llandeilo a Llanymddyfri ac ardaloedd blaenau Tywi, dyffryn Cothi a dyffryn Aman. Cydweithia'r Fenter yn agos gyda'i phrif gyllidwyr, sef Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr, ynghyd â nifer o bartneriaid eraill ar lefel gymunedol, sirol a chenedlaethol.

Mae cyfle wedi codi i ymuno â thîm brwdfrydig Menter Bro Dinefwr i weithio yng nghymunedau'r ardal fel Swyddog Datblygu. Cynigir telerau ffafriol a cheir manylion llawn yn y disgrifiad swydd isod.

Bydd y swydd wedi ei lleoli rhwng swyddfeydd y Fenter yn Rhydaman a Llandeilo.

### YMGEISIO

Gofynnwn i unrhyw sydd â diddordeb i ymgeisio, gwblhau ffurflen gais a'i chyflwyno drwy ebostio [swyddi@menterbrodinefwr.cymru](mailto:swyddi@menterbrodinefwr.cymru) erbyn y dyddiad isod, gan gyfeirio ac ymateb i'r Cymwysterau, Sgiliau ac Elfennau Hanfodol / Dymunol yn y man priodol ar y ffurflen. Bydd hon yn broses agored a thryloyw ac mae croeso i chi gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol am sgwrs anffurfiol ar (01558) 825336.

### AMSERLEN

DYDDIAD HYSBYSEBU:	<b>21 Chwefror 2019</b>
DYDDIAD CAU DERBYN CEISIADAU:	<b>7 Mawrth 2019 - 10am</b>
DYDDIAD HYSBYSU YMGEISWYR:	<b>8 Mawrth 2019</b>
CYFWELIADAU:	<b>12 Mawrth 2019 yn Llandeilo</b>
DYDDIAD DECHRAU:	<b>1 Ebrill 2019 (neu chyn gynted â phosib wedi hynny)</b>



## **DISGRIFIAD A MANYLEB SWYDD**

### **Prif Bwrpas y Swydd**

Prif nod y swydd fydd gweithredu prosiectau cymunedol amrywiol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg, gan ganolbwyntio, yn y lle cyntaf, ar ardaloedd Rhydaman, Llandeilo a Brynaman.

Y nod fydd sefydlu a datblygu prosiectau fydd yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y cymunedau. Mae'r swydd, felly, yn cynnig her a chyfleoedd cyffrous i unigolyn brwdfrydig gyfrannu at y nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chyfrannu'n gadarnhaol i gymunedau'r ardal, yr economi leol a'r iaith Gymraeg ym mro Dinefwr.

### **Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau**

Mae'r swydd hon wedi ei rhannu'n dair elfen:

- 1) gweithredu prosiect Cymraeg Byw sy'n canolbwyntio ar weithredu'n ddwys mewn ardaloedd blaenoriaeth penodol (Llandeilo a Brynaman) dan nawdd y Cynllun Datblygu Gwledig;
- 2) gweithredu'n ddwys yn nhref Rhydaman a'r cyffuniau dan nawdd Llywodraeth Cymru;
- 3) gweithredu prosiectau cymunedol cyffredinol ar draws ardal Menter Bro Dinefwr.

#### ***Dyletswyddau penodol y prosiect Cymraeg Byw (25 awr)***

- Diweddarur gwaith mapio a'r cynllun gweithredu strategol (yn cynnwys rhaglen o weithgareddau) ar gyfer Llandeilo a Brynaman
- Hwyluso rhwydwaith o brif bartneriaid lleol yn Llandeilo a Brynaman
- Cynnal gweithgareddau lleol a chefnogi eraill i wneud hynny lle bo'n briodol
- Cydweithio â swyddogion eraill y Fenter ym meysydd plant, pobl ifanc a theuluoedd i hyrwyddo prosiectau addas yn yr ardaloedd blaenoriaeth
- Codi ymwybyddiaeth o'r prosiect a'r Cynllun Datblygu Gwledig yn yr ardaloedd blaenoriaeth
- Sefydlu prosiect i ddatblygu arweinyddion cymunedol ifanc

#### ***Dyletswyddau penodol i weithredu'n ddwys yn Rhydaman a'r cyffuniau (10 awr)***

- Diweddarur gwaith mapio a'r cynllun gweithredu strategol (yn cynnwys rhaglen o weithgareddau) ar gyfer Rhydaman a'r cyffuniau
- Hwyluso rhwydwaith o brif bartneriaid lleol yn Rhydaman a Glanamau
- Cynnal gweithgareddau lleol a chefnogi eraill i wneud hynny lle bo'n briodol
- Cydweithio â swyddogion eraill y Fenter ym meysydd plant, pobl ifanc a theuluoedd i hyrwyddo prosiectau addas yn Rhydaman a'r cyffuniau
- Datblygu'r berthynas sy'n bodoli eisoes gyda mudiadau a sefydliadau lleol, yn cynnwys y Cynghorau Lleol a'r Cyngor Sir
- Datblygu partneriaethau newydd lle bo'n bosib
- Sefydlu a datblygu hwb cymunedol Cymraeg yng nghanolfan y Fenter yn Rhydaman

#### ***Dyletswyddau cyffredinol (2.5 awr)***

- Gweithredu prosiectau cymunedol cyffredinol ar draws ardal Menter Bro Dinefwr
- Cefnogi a chydweithio fel rhan o dîm o swyddogion y Fenter ym meysydd plant, pobl ifanc a theuluoedd i hyrwyddo prosiectau ar draws yr ardal

### ***Dyletswyddau craidd***

- Cydweithio, cefnogi a chynorthwyo'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol i gynllunio, gweithredu a gwerthuso
- Gweithredu ar dargedau meintiol ac o fewn cyfyngiadau cyllidebol yn unol â'r cyfarwyddyd gan y Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol
- Cynnal, gweithredu, monitro a gwerthuso prosiectau gan gynnwys cyllid
- Bod yn effro i gyfleoedd ac yn barod i gynnig a datblygu syniadau newydd i ddatblygu'r gwaith
- Bod yn brif bwynt cyswllt cymunedol lleol yn cynnig cyngor a chymorth yn ymwneud â'r Gymraeg
- Cyfrannu at weithgareddau marchnata a chyfryngau cymdeithasol y Fenter, a sicrhau cysylltiadau da gyda'r wasg a'r cyfryngau
- Hyrwyddo delwedd gyhoeddus y Fenter gan fynychu digwyddiadau a sioeau perthnasol
- Sefydlu partneriaethau ffurfiol ac anffurfiol ag ystod o bartneriaid
- Adnabod ffynonellau cyllid priodol ar gyfer prosiectau a pharatoi ceisiadau am nawdd mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol
- Cynrychioli Menter Bro Dinefwr ar amrywiol bwyllgorau a fforymau
- Cynorthwyo â chynlluniau cyffredinol a digwyddiadau'r Fenter yn ôl y galw
- Adrodd nôl yn llawn ar brosiectau i'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol yn gyson ac i'r Bwrdd Rheoli a chyrrff allanol pan fydd angen
- Cyfrannu at unrhyw agwedd o waith y Fenter neu waith arall yn ôl y galw

### ***Cymwysterau, Sgiliau ac Elfennau Hanfodol***

- Profiad o weithio gyda a / neu fod yn rhan o grwpiau cymunedol
- Adnabyddiaeth a dealltwriaeth o broffil ieithyddol a diwylliannol ardal Menter Bro Dinefwr
- Ymwybyddiaeth fras o waith Mentrau Iaith a meysydd polisi'r Gymraeg a chymunedol
- Y gallu i ymgysylltu, cyfathrebu a dylanwadu'n effeithiol
- Sgiliau cyfrifiadurol (defnyddir pecynnau Microsoft yn bennaf, yn ogystal â'r e-bost a'r we)
- Sgiliau rhyngpersonol da gyda'r hyder i ymdrin â phobl yn gwrtais ac effeithlon
- Trwydded yrru lawn a defnydd o gar
- Y gallu i weithio'n ddiwyd a threfnus gan flaenoriaethu gwaith a chyfrifoldebau amrywiol y swydd, ac ymateb yn bwyllog ac ystyrlon i unrhyw elfennau annisgwyl a materion brys
- Y gallu i gydweithio ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dîm o weithwyr proffesiynol, gwirfoddolwyr a'r cyhoedd yn gwrtais ac effeithiol
- Y parodrwydd i weithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn ôl y galw
- Y parodrwydd i ddysgu ac i ddatblygu yn y swydd a chyfrannu'n gadarnhaol i ddatblygiad y gwaith a'r Fenter yn ehangach
- Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu llafar ac ysgrifenedig gwych yn Gymraeg a Saesneg
- Brwdfrydedd ac angerdd tuag at y Gymraeg a chymunedau'r ardal

### ***Cymwysterau, Sgiliau ac Elfennau Dymunol***

- Cymhwyster ym maes datblygu cymunedol neu gynllunio ieithyddol
- Profiad o drefnu neu gydlynu gweithgareddau amrywiol
- Profiad o wirfoddoli neu weithio gyda gwirfoddolwyr
- Profiad o sefydlu a datblygu prosiectau newydd ac arloesol
- Profiad o weithio â'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat i ddatblygu partneriaethau newydd

## **Cyflogaeth**

- Telir cyflog o £20,000 - £25,000 y flwyddyn
- Bydd yr uchod yn newid yn unol â chwyddiant neu amrywiadau blynyddol fel y'u pennir gan Fwrdd Rheoli'r Fenter (fel arfer yn unol â chanllawiau'r Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol)
- Telir cyfraniad pensiwn i Gronfa Pensiwn Dyfed pe dymunir hynny
- Rhoddir cyfnod prawf cychwynnol o chwe mis i'r swydd newydd gydag adolygiad wedi 2-3 mis, goruchwyliaeth gyson a system werthuso ddatblygiadol
- Bydd lleoliad y swydd wedi ei rannu rhwng swyddfa'r Fenter yn Rhydaman a Llandeilo
- Bydd disgwyl i chi deithio i leoliadau eraill yn ôl y galw, a thelir costau teithio o £0.40 y filltir am deithiau cymwys yn ymwneud â'r gwaith
- Bydd yr oriau gwaith yn 37½ awr yr wythnos a'r oriau arferol fydd 9am-5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, gyda ½ awr i ginio i'w gymryd rhwng 12 a 2pm.
- Bydd disgwyl i chi weithio oriau anghymdeithasol (gyda'r nos a/neu ar benwythnosau) o bryd i'w gilydd (e.e. cyfarfodydd, gweithgareddau, digwyddiadau amrywiol, etc). Rhoddir yr oriau hyn yn ôl yn llawn trwy system *Time Off In Lieu (TOIL)*
- Rhoddir 32 diwrnod o wyliau blynyddol yn cynnwys gwyliau statudol gyda hyn yn codi i 37 diwrnod wedi 5 mlynedd o wasanaeth

## **Materion Corfforaethol ac Atebolrwydd Cyffredinol**

- Atebol i'r Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol a fydd yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr a'r Bwrdd Rheoli
- Gweithredu'n unol â deddf gwlad, gweithdrefnau'r cwmni, yn cynnwys rheoliadau GDPR diogelu data, rheoli risg, materion iechyd a diogelwch, a pholisïau sefydliadol, rheoliadol a ddeddfwriaethol sy'n weithredol
- Cydweithio yn rhan o dîm sy'n cynnwys Menter Bro Dinefwr a grŵp ehangach o gwmnïau a chyfrannu'n gadarnhaol at hyrwyddo delwedd gyhoeddus ac amcanion y Fenter
- Cyfrannu at ddatblygu cynlluniau hirdymor y Fenter
- Mynychu cyfarfodydd amrywiol yn ôl y galw
- Mae Menter Bro Dinefwr yn rhan o Grŵp Mentrus Cyf, ac yn gwmni cysylltiol i Trywydd Cyf, Cyfoes a Gofal Plant Cyf.

## **Adolygir y disgrifiadau swydd yn rheolaidd fel rhan o werthusiad staff a datblygiad personol gan Reolwyr Llinell, y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Bwrdd Rheoli**

## **Mae'n bolisi gan y cwmni y bydd pob aelod o staff sy'n debygol o weithio gyda phlant, pobl ifanc a/neu oedolion bregus yn cael archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**

